

COMISIYNYDD PLANT CYMRU

Disgrifiad Swydd

1. Manylion y Swydd

Teitl y Swydd: Swyddog Polisi ac Ymchwiliadau a Chyngor (Cyfrifoldebau Cymru Gyfan)

Lleoliad: Mae Swyddfa'r Comisiynydd yn Nhŷ Llewelyn, Parc Busnes Glannau'r Harbwr, Port Talbot. Rydyn ni'n cefnogi patrymau gwaith hyblyg ac o bell, gan gynnwys trefniadau gweithio gartref ran/y rhan fwyaf o'r amser.

Yn adrodd i: Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus yw Rheolwr Llinell y swydd hon. Byddwch hefyd yn derbyn goruchwyliaeth broffesiynol gan Bennaeth Ymarfer ar gyfer llwyth achosion ymchwiliadau a chyngor.

2. Prif ddiben, amcan a chyd-destun y rôl (yn gryno)

- Prif ddiben y rôl hon yw cefnogi Comisiynydd Plant Cymru i gyflawni newid cadarnhaol i blant a phobl ifanc yng Nghymru a phrif-ffrydio egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i ymarfer beunyddiol.
- Byddwch yn gweithio gyda'r Tîm Polisi a'r Tîm Ymchwiliadau a Chyngor yn canfod y cysylltiadau systemig rhwng materion gwaith achosion a datblygiad polisi a deddfwriaeth cenedlaethol yng Nghymru.
- Byddwch chi'n rhoi cyngor a chefnogaeth i blant, pobl ifanc, oedolion a gweithwyr proffesiynol eraill unigol, yn unol â phwerau Comisiynydd Plant Cymru o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000, Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 a Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001.
- Byddwch chi'n dylanwadu ar ddatblygu a chyflwyno polisi a deddfwriaeth cenedlaethol yng Nghymru, gan fonitro effaith polisiau Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff cyhoeddus eraill ar blant a phobl ifanc Cymru.
- Byddwch yn cyfranogi mewn grwpiau prosiect traws-swyddogaethol ac yn rheoli eu prosiectau o fewn y swyddfa fel sy'n briodol.

3. Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau

- Cyfrannu at ddatblygiad a gweithrediad parhaus gwasanaeth cyngor a chymorth sy'n canolbwyntio ar atebion, sy'n cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc yng Nghymru, gan gyfranogi pro-rata mewn rota dyletswydd ar gyfer y gwasanaeth ffôn cyngor a chymorth.
- Gwrando, cynghori, cynorthwyo ac eiriol dros blant unigol, gan hybu a diogelu eu hawliau a'u lles.
- Cynllunio a chyflawni, neu gyfranogi mewn ymchwiliadau ac adolygiadau o achosion o dorri hawliau plant mewn cyrrff cyhoeddus yng Nghymru, ac yn y gwaith o baratoi a chynnal archwiliadau ac adolygiadau gwasanaeth a gynhelir yn unol â phwerau cyfreithiol y Comisiynydd.

- Cadw cofnodion cywir o'r holl waith ymchwiliadau a chyngor ar system rheoli achosion Ymchwiliadau a Chyngor.
- Ymarfer pwerau'r Comisiynydd i ofyn bod personau rhagnodedig yn darparu gwybodaeth a chymorth, ac archwilio'r wybodaeth a ddarparwyd er mwyn cynghori Pennaeth Ymarfer neu'r Comisiynydd ynghylch camau gweithredu priodol.
- Monitro, dadansoddi ac adrodd ar waith ymchwiliadau a chyngor unigol er mwyn canfod materion systemig sy'n effeithio ar hawliau a lles plant, y gallai fod angen i dîm Comisiynydd Plant Cymru weithredu yn eu cylch, a dod â nhw at sylw Pennaeth Polisi.
- Derbyn cyfrifoldeb am feysydd gwaith penodol sy'n ymwneud â themâu polisi, gan ymateb i ymgynoriadau'r llywodraeth a datblygu arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.
- Dadansoddi a dylanwadu ar fentrau polisi allweddol gan Lywodraeth Cymru, Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chyrrff cyhoeddus eraill o'ch meysydd penodedig. Monitro eu heffaith ar lesiant plant, pobl ifanc a theuluoedd ar lefel genedlaethol a lleol, gan gymryd persbectif plant a phobl ifanc i ystyriaeth.
- Cynhyrchu briffiadau polisi a llunio adroddiadau seiliedig ar dystiolaeth o safon uchel ar gyfer y Comisiynydd ac i'w cyhoeddi. Deall, dehongli a chyflwyno canfyddiadau ymchwil, deddfwriaeth a data meintiol, gan sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch datblygiadau ac ymchwil newydd.
- Ymateb i ohebiaeth gyhoeddus a dderbyniwyd gan y swyddfa, gan gasglu gwybodaeth berthnasol gan gydweithwyr ar draws y Timau, a chynnal a threfnu cofnod o'r ceisiadau a ddaeth i law.
- Meithrin perthnasoedd gwaith cadarn a bod yn ffrind beirniadol annibynnol, sy'n cael ei barchu i bob asiantaeth yn y sectorau statudol a gwirfoddol y mae eu gwaith yn berthnasol i swyddogaethau'r Comisiynydd, gan weithio i ddatrys problemau hawliau a lles plant mewn modd anffurfiol, lle bo hynny'n briodol.
- Cynrychioli Comisiynydd Plant Cymru mewn gweithdai, cynadleddau a seminarau, a mynychu gweithgorau allweddol Llywodraeth Cymru a chyrrff gwirfoddol fel arsylwr.
- Hyrwyddo a gwreiddio eich gwybodaeth arbenigol am wasanaethau plant a materion diogelu yng ngwaith y swyddfa.
- Cefnogi creu diwylliant cynhwysol a chefnogol yn y gweithle trwy ddarparu cymorth a chyflenwi dyletswyddau cydweithwyr yn achlysurol ar draws pob swyddogaeth yn ôl y galw.
- Cynnal gwerthoedd ein Tîm, gan gynnwys ei ymrwymiad i hyrwyddo hawliau plant, a chefnogi gwaith cyfranogiad y swyddfa trwy wrando ar blant a'u cynnwys mewn agweddau allweddol ar eich gwaith.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau eraill sydd o fewn cwmpas y radd, fel y bydd y Tîm Rheoli neu unrhyw un o'i aelodau'n barnu sy'n angenrheidiol.

Manyleb Person

Cymwysterau a Sgiliau

- Gradd neu gymhwyster lefel broffesiynol ym maes addysg, y gyfraith, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, chwarae, gwaith ieuencid, cyfiawnder ieuencid neu brofiad cyfatebol;
- Sgiliau ymchwil a dadansoddi cywir sy'n defnyddio ystadegau a deallusrwydd i gwestiynu, dadansoddi, dehongli a deall ystyr gwybodaeth gymhleth;
- Sgiliau trefnu;
- Sgiliau dylanwadu datblygedig, gan gynnwys y gallu i feithrin hyder ymhlith ystod amrywiol o randdeiliaid, o blant a phobl ifanc i lunwyr penderfyniadau ar y lefel uchaf;
- Sgiliau cyflwyno a hwyluso;
- Lefel uchel o lythrennedd, a sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog;
- Y gallu i gyfathrebu'n hwylus yn Gymraeg ag aelodau o'r cyhoedd a rhanddeiliaid allanol, neu'r gallu i fedru gwella sgiliau Cymraeg presennol yn gyflym, gydag anogaeth a chefnogaeth;
- Sgiliau TGCh hynod fedrus;
- Sgiliau rhyngpersonol rhagorol, a'r gallu i ddelio'n ddigynnwrf ac effeithiol â phwysau o sawl cyfeiriad a datblygu perthnasoedd gwaith llwyddiannus; a
- Thystiolaeth o ddatblygiad a dysgu proffesiynol diweddar a pharhaus.
- Byddai sgiliau rheoli prosiect o fantais yn y rôl hon.

Gwybodaeth a phrofiad

- Profiad blaenorol o gynghori, cynorthwyo ac eiriol ar ran eraill;
- Byddai profiad blaenorol o reoli llwyth achosion o fantais;
- Byddai profiad blaenorol o ddatblygu safbwyntiau polisi ar sail tystiolaeth, paratoi briffiadau polisi a nodi argymhellion polisi o fantais;
- Gwybodaeth a phrofiad diamheuol o amddiffyn a diogelu plant a gweithio ar draws sefydliadau i gyflawni canlyniadau diogel i blant a phobl ifanc;
- Arddangos ymwybyddiaeth strategol a gwleidyddol a dealltwriaeth o strategaeth ac agendâu polisi llywodraeth leol a chenedlaethol yng nghyswllt CCUHP a hawliau a lles plant a phobl ifanc;
- Profiad eang a thystiolaeth o weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ar bob lefel i ddylanwadu a chyflawni newid i blant a phobl ifanc.

Nodweddion Personol

- Gallu i arddangos dealltwriaeth o werthoedd ein swyddfa a'r agenda hawliau dynol;
- Ymarferydd annibynnol rhagweithiol, sy'n llawn hunan-gymhelliad;
- Deall pwysigrwydd dilyn proses a chydymffurfio â rheoliadau, ochr yn ochr â chanolbwyntio ar ddeilliannau a chael hyd i atebion arloesol i broblemau;
- Arddangos dull o ymdrin â galwadau ffôn sy'n broffesiynol ac yn tawelu meddwl pob galwr, yn arbennig y rhai a all fod mewn trallod;
- Agwedd hyblyg at waith a dyletswyddau, a pharodrwydd i ymateb i ofynion newidiol a cheisiadau brys;
- Ymroddiad i gynrychioli barn plant a phobl ifanc a diwallu anghenion plant a phobl ifanc ym mhopeth a wnawn;

- Arddangos brwdfrydedd ynghylch bod yn llysgennad effeithiol dros hawliau plant, ac awydd i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc;
- Gallu i feithrin perthnasoedd gwaith da ar bob lefel, ar draws ac o fewn y sefydliad;
- Agwedd gefnogol, llawn empathi at eraill, a'r gallu i ymwneud â phobl o ystod eang o gefndiroedd;
- Arddangos uniondeb proffesiynol, hygrededd a sensitifrwydd i gynnal hyder ac ymddiriedaeth.